

Peidiwch a gwybyddwch mai myfi sydd Dduw

I bobl falch, i bobl sydd a'i bryd ar 'wneud rhywbeth', i bobl sy'n brysur ac ar fynd drwy'r amser, peth anodd iawn yw pwylllo, arafu, aros ac ymostwng i Dduw.

Ac eto ar wahân i weithgarwch yr Arglwydd ynom ni fyddwn mewn lle i'r Arglwydd weithio drwom.

Wrth ymostwng i'r Tad, yn enw'r Mab, trwy waith mewnol yr Ysbryd Glân canfyddwn ddau beth. Yn gyntaf, nad yw ein prysurdeb yn ddim ond sain heb sylwedd. O bosib yn ddim ond yn dric hud a lledrith bywydau sy'n ceisio cuddio noethni'n heneidiau a dyfnder ein hangen oddi wrth yr Arglwydd.

Yn ail, wrth ymostwng canfyddwn ddyfnder ein hangen, dyfnder trugaredd Duw tuag atom a gymaint yw ein hangen am gael ein llenwi ganddo. Caiff ein hunan-gyfiawnder ei dynnu oddi wrthym a chyflawnder cyfiawnder Duw yng Nghrist ein golchi ag urddas gras.

Mynegir mewn modd rhyfeddol ac urddasol y reddf hon gan Liturgi Berne.


'Hollalluog a gogoneddus Dduw, yr hwn a glodforir gan yr angylion a'r gwynfydedigion oll, caniatâ i ni ddynion yn ein tloidi y gras i'th addoli Di mewn cyfiawnder ac i'th wasanaethu yn ôl dy ddymuniad Dy hun.

Boed i ni sefyll yn Dy sanctaidd Dŷ mewn gwir barch ac awyddfryd nefol, ac mewn ffydd syllu ar D'ogoniant.

Dyrchafa'n meddyliau a'n dymuniadau atat Ti Dy Hun.

Sancteiddia'n gwaith, bendithia'n gwasanaeth a phâr i fawl ein genau fod wrth Dy fodd. Gwrando'n gweddïau gerbron gorseddfainc dy drugaredd, a dyro yn Dy ras bopeth sy'n angenrheidiol er ein gwynfyd, trwy Iesu Grist ein Harglwydd.'

(Densil Morgan, Karl Barth yng nghyfres Y Meddwl Modern)



Pigion o'r Gymdeithasfa yn y De

Ar ddydd Mercher, Hydref 24 ar ddiwrnod hyfryd o Hydref, cynhaliwyd y Gymdeithasfa, yng Nghapel Soar, Pontardawe, o dan lywyddiaeth y Parchedig T. Evan Morgan. BD.



Parch T. Evan Morgan
Llywydd y Gymdeithasfa
yn y De

Trafodwyd nifer o bynciau pwysig, gan gynnwys Diogelu Data. Daeth y Ddeddf Gwlad hon i rym ar Fai 25 eleni. Mae staff y swyddfa yng Nghaerdydd wedi gwneud gwaith aruthrol ar hyn ac mae

sesiynau dysgu yn cael eu cynnal mewn canolfannau ar draws y wlad ar hyn o bryd. Pwysleisiwyd y dylai cynrychiolwyr o bob eglwys fynychu'r rhain.

Bu trafod ar gynllun gan Gapel Moreia, Leytonstone, Llundain a chafwyd rhai manylion wrth Heulwen Reading a Tony Platt. Dymuniad ymddiriedolwyr y capel yw datblygu'r safle ag estyn allan mewn amrywiol ffyrdd i Gymry Cymraeg a di-Gymraeg yn y gymuned o amgylch Leytonstone a'r cylch. Pwrpas ysbrydol yw gwraidd y cynllun er mwyn parhau ag ehangu addoli Cristonogol Cymraeg. Byddai llety di-dâl i Weithiwr Cristonogol Cymunedol (sydd wedi cael cymeradwyaeth), meithrinfa, coffe a bwyty a chanolfan lle gellir cynnal gwersi Cymraeg a gweithgarwch i blant ag eraill.

Wedi oedfa Gymun, pryd yr anerchwyd wrth Fwrdd y Cymun gan y Parchedig Eifion Roberts BAdd, cafwyd cinio blasus iawn yn yr Ynysmeudwy Arms, cyn dechrau ar yr ail eisteddiad.

Y flwyddyn nesaf (2019) cynhelir Cymdeithasfa'r Gwanwyn yn



Capel Moreia, Leytonstone

Nantgaredig ar Fai 1-2, ac un yr Hydref yng Ngheredigion ar Hydref 23, a'r lleoliad i'w benderfynu.

Yn ystod y trydydd eisteddiad, enwyd a llongyfarch blaenoriaid oedd yn dathlu

(parhad ar dudalen 2)

Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad â theulu'r Parch George Emlyn Jones, a aeth i'w wobwr, wedi cyfnod hir o salwch, ar 11 o Dachwedd 2018. Bydd ysgrif goffa lawnach yn dilyn yn fuan.

Dathlu'r 60 yn Llundain

*Bu'r tymor hwn yn brysur yn ysgol Gymraeg Llundain. Ar 27 Hydref yng Nghapel Jewin cynhaliwyd Cyngerdd i ddathlu 60 mlynedd ers ei syfydlu. Yn ôl ym mis Medi cynhaliwyd oedfa i ddathlu'r achlysur. A diolch i **Eiry Cross** am anfon ei hymateb i'r gwasanaeth hwnnw lle roedd gweinidogion EBC yn chwarae rhan mor flaenllaw mewn gwasanaeth oedd yn croesi ffiniau enwadol.*



Ar brynhawn dydd Sadwrn yr wythfed o Fedi bwm mewn oedfa arbennig yn Eglwys Gymraeg Canol Llundain i ddathlu chwe deg mlynedd ers sefydlu Ysgol Gymraeg Llundain.

Dechreuodd y gweinidog y Parchedig Rob Nicholls drwy groesawu pawb a'n harwain i ganu:

Melys ydyw cywair ein telynau glân
Am fod oriau bywyd yn llawn o gân.

Yna darllenodd y Parchedig Anthony Williams rhan o lyfrau Jeremeia a Deuteronomium. Dilynodd y Parchedig Richard Brunt drwy ddarllen rhan o Efengyl Marc ac Efengyl Mathew yn Saesneg. Offrymodd y Parchedig Gwylfa Evans weddi. Canwyd yr emyn Saesneg poblogaidd:

To God be the glory!
Great things He has done!

Pigion o'r Gymdeithasfa yn y De (parhad)

gwasanaeth – dau o gapel Bryn Seion, Aber-porth, ill dau yn dathlu 50 mlynedd fel blaenor – Mrs Mavis Jenkins a Mr Jim Ramsbottom. Ordeiniwyd pedair merch o Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro ers y Gymdeithasfa ddiwethaf – Mrs Nia Richards a Mrs Janet Jones o gapel Nasareth, Talybont, a Mrs Mary Davies a Mrs Bethan Howells o gapel y Tabernacl, Aberteifi.

Cafwyd anerchiad diddorol iawn gan Miss Ann Rosser, Gellifedw, ar *Gwenallt a'i fro*. Cafodd Gwenallt ei eni ym Mhontardawe ac roedd yn aelod yng nghapel Soar. Clywsom ei lais ar dâp yn adrodd peth o'i waith, a dywedodd Miss Rosser bod tirlun yr

Cawsom gyfarchion gan Rachel Rawlins, Athrawes Arweiniol yr ysgol, Margaret Jones, Cadeirydd Bwrdd Cyfarwyddwr ac un o'r cyn-ddisgyblion Olwen Evans.

Uchafbwynt y gwasanaeth oedd eitem gan ddisgyblion yr ysgol. Canasom:

Dwy law yn erfyn sydd yn y darlun
Wrth ymyl fy ngweddi I.

Siaradodd Y Gwir Barchedig Ddr. Barry Morgan, cyn Archesgob Cymru am y goeden palmwydd sydd a'i gwreiddiau yn tyfu allan fel rhyw belen ac yn gwreiddio'n ddfwn a bod hynny yn help mawr i wrthsefyll stormydd. Hefyd fod tu fewn neu galon y goeden ddim yn galed ond fel sbwng a'r prysgyn (bark) yn llawn ffibrau sy'n plethu drwy'i gilydd ac yn ei gadw'n syth. Golygai hynny bod y goeden yn medru plygu gyda'r stormydd heb dorri ac yna dod yn ôl i sefyll yn syth

ardal wedi cael effaith ar ei waith.
Araith afaelgar oedd hon.

Daeth y diwrnod i ben gyda the blasus iawn yn y festri – rhodd gan chwirydd capel Soar er cof am Mrs Beryl Davies a Mrs Cynthia Dodd.

Da oedd cael croesawu cynrychiolwyr o'r Gymdeithasfa yn y Gogledd a'r Dwyrain ynghyd â Llywydd y Gymanfa Gyffredinol.

Aeth y diwrnod yn ei flaen yn rhwydd iawn ac mae diolch i'r ysgrifennydd, y Parchedig Wyn Morris am ei drefnu trylwyr.

Margaret Daniel,
Llywydd Henaduriaeth Ceredigion
a Gogledd Penfro

fel yr oedd. Byddai pobl yn defnyddio'r rhisgl i wahanol bethau, a defnyddiwyd yr olew a'r ffrwythau datys i gynnal bywyd.

Deallais fy hun ei fod yn dweud fod 'gwreiddiau' yn cyfrif a gall pobl bownsio'n ôl ar ôl storm neu siom.

Gorffennwyd yr oedfa drwy ganu'r emyn gwladgarol:

Dros Gymru'n gwlad,
o Dad dyrchafwn gri.

Cyhoeddodd y Parchedig Rob Nicholls y Fendith ar ddiwedd yr Oedfa.

Cefais help gan Mr. Gwyndaf Evans i baratoi'r adroddiad.

Pan ddysgais yn Ysgol Gymraeg Llundain ysgrifennais rhyw ychydig o farddoniaeth wrth adael.

Ysgol Gymraeg Llundain.

Mae'n ysgol wledig mewn dinas fawr,
Unigryw yw hi mi gredaf yn awr.
Yno mae 'na awyrgylch arbennig
Pawb yn groesawgar ac mor garedig.
Mae'r athrawon yn ddawnus
Ac Eleri yn weithgar ac mor drefnus.
Mae Menna a'i chalon yn ei gwaith
Ac yn caru'r plant a'r ysgol – mae
hynny'n ffaith.

Diolch am yr anrhydedd o ddysgu yno.
Byddaf yn cofio'r profiad llawer tro.

Taro'r Post



Annwyl Olygydd,

Yn rhif 44 Y Goleuad, Tachwedd 2, 2018, wedi i awdur dienw (sy'n arwyddocaol ynddo'i hun!) drafod perthynas y Cymry ag alcohol, fe ofynnodd i ni roi gwybod i chi pa gyngor fyddem ni'n ei gynnig i Gristion ifanc heddiw am eu perthynas â'r ddiod gadarn.

Rydw i wedi bod yn meddwl am y cwestiwn yma ac rwy'n meddwl y gwnâi ymdrin ag o fel cwestiwn o ffydd. Ffydd yw cred yn absenoldeb tystiolaeth, dyna pam ei fod yn ffydd wrth gwrs. Nid yw Duw yn cyflwyno ei hun i ni i brofi ei fodolaeth dim ond oherwydd ein bod yn mynnu hynny. Mae ffydd yn reit debyg i gamu allan i wagle gan wybod y bydd pont yna. Os rhown ein ffydd mewn alcohol ni allwn roi ein ffydd yn Nuw – oherwydd ein bod yn chwilio am 'ddatrysiad' daearol i broblem ysbrydol – mae alcohol fel cyffwr yna yn syml i ail-siapio ein profiad drwy feddwod fel nad ydym yn teimlo ein teimladau. Y realiti yw, gallwn gael alcohol neu Dduw, ond nid y ddau, gan fod y blaenorol yn cau allan yr ail. Felly Gristion ifanc, cwestiwn ydyw o benderfynu pa un y mae gennych ffydd ynddo.

Yn gywir,

Wynford Ellis Owen